# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

## COFNODION - EBRILL 2017

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher, 19 Ebrill 2017 |
| **AMSER** | 7.00pm |
| **LLEOLIAD** | **Canolfan Bro Llanwnda** |

| | |
|---|---|
| a) | **Croeso**<br>Yn absenoldeb Rhys Owen y Cadeirydd, Cadeirwyd y cyfarfod gan Nerys Evans a rhoddwyd croeso cynnes i bawb. Yn bresennol roedd Michelle Williams, Cyng Aeron M Jones, Elin Evans, Elwyn Jones, Gwilym Ll Williams ar Clerc Caryl E Lewis. |
| b) | **Ymddiheuriadau**<br>Cafwyd ymddiheuriadau gan Neal Williams, Rhys Owen, Tom Ellis, Jason Hunt a Les Williams, Gwilym V Thomas. |
| c) | **Datgan Buddiant**<br>Dim i'w nodi. |
| d) | **Cadarnhau cofnodion 15 Mawrth 2017 a materion yn codi**<br>Derbyniwyd fel cofnod cywir. Cynnigodd MW eu bod yn gywir ac eilwyd hyn gan NE. |
| e) | **Materion i'w trafod:**<br><br>a) SP Energy Networks<br>Cafwyd ymweliad brys gan gan Tim Ritchie a Dylan Herbert o SP Energy Networks yn dilyn toriadau rheolaidd yn y pwer yn ardal Llanwnda. Mae'n cael effaith ar drigolion yr ardal a busnesau, mae 10 toriad wedi bod ers Ionawr eleni. I egluro y gwahaniaeth rhwng y cwmniau, nodwyd yr isod:<br><br>Scottish Power – prynu y trydan gan nhw.<br>SP Energy Networks – sydd berchen y rhwydwaith sy'n cario'r trydan i'r cwsmer.<br><br>Cafwyd ymddiheuriad ac yr eglurhad isod:<br>• Mae'r toriadau wedi ei hachosi gan sawl peth a mae'n fater cymhleth i geisio ei ddatrys.<br>• Tua 15 mlynedd yn ol gosodwyd "lightening protectors" ar y lein, rhain gyda nam arnynt ac angen eu newid. Yn anffodus nid oedd bosib rhagweld y broblem hon ond mae cynllun mewn lle rwan i'w hail wneud.<br>• Problemau mawr gyda coed yn yr ardal a byddent yn buddsoddi mewn rhaglen torri coed cyn gynted a phosib. Mae cael caniatad tirfeddianwyr yn gallu bod yn broblem ac yn arafu'r broses.<br>• I wneud yr holl waith ar y lein gan achosi cyn lleied o doriadau yn y trydan bydd angen ceisio gwneud y gwaith yr un pryd, felly mae hyn yn creu oediad pellach.<br>• Byddent yn parhau i'n hysbysu o'r cynnydd, yn y cyfamser os oes toriad yn y trydan bydd angen i gwsmeriaid ffonio 105.<br>• Ymrwymiad i ddatrys y broblem cyn gynted a phosib.<br><br>b) Etholiad<br>Clerc yn cadarnhau fod pawb wedi eu hethol yn ddiwrthwynebiad fel cynghorwyr cymuned. Mae sedd wag yn parhau yn ardal Dinas a bydd angen cyngor gan y Swyddog Etholiadol o ran llenwi'r sedd honno.<br>c) Cydweithio gyda Cynghorau Cymuned Cyfagos<br>Dim cyfarfod pellach wedi bod. |

| | |
|---|---|
| | d) Wal y fynwent<br>Penderfynu i ddal ymlaen am benderfyniad nes y bydd mwy yn bresennol.<br>e) Grant llwybrau<br>Nododd y Clerc ei bod wedi derbyn neges gan Cyngor Gwynedd yn nodi mai'r grant fydd ar gael ar gyfer 2017-18 fydd 821.08, sydd yn golygu gostyngiad yn y grant. Nododd Aelodau eu bod yn fodlon derbyn y cynnig hwn a'n bod yn awyddus parhau gyda'r trefniant ad-dalu. Er hyn ni fyddwn yn cwtogi y rhestr llwybrau ar hyn o bryd gan fod aelodau yn teimlo ei fod yn bwysig eu cynnal.<br>f) GVT – Storm diwethaf, daeth polyn letrig i lawr yn Bodfan, Rhosgadfan, tydy'r lamp byth wedi ei roi yn ol. Dim pwer yn mynd i mewn i'r arwydd 30 rwan, ydy nhw wedi cysylltu yn ol yn iawn?<br>Clerc wedi cysylltu gyda Colin Worth, Rheolwr Goleuo Stryd ond heb dderbyn ymateb hyd yma.<br>g) MW – Bylbiau a blannwyd o amgylch y pentrefi dal heb agor<br>Bylbiau yn siomedig eto eleni, gyda dim ond llond llaw o flodau wedi dod. Clerc wedi cysylltu gyda'r cwmni ac yn aros am ymateb. Nododd fod y cwmni garddio bellach wedi dod i ben ond bydd y Clerc yn parhau i geisio cysylltu.<br>h) NE – Ffin rhwng ni a Llandwrog (Groeslon) sef heibio Bryn Peris at Maes Tryfan), mae'r llinellau gwyn oddi ar y lon wedi gwisgo, felly pan yn dod i lawr tydy o ddim yn amlwg fod angen sdopio.<br>Clerc wedi cysylltu gyda Ian Morgan, Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd ond heb dderbyn ymateb hyd yma gan ei fod ar wyliau. |
| 6. | **Derbyn Adroddiadau**<br>a) Canolfan Sain – anifeiliaid rhydd<br>Nododd y Clerc ei bod wedi derbyn llythyr gan Sain yn nodi pryder am wyddau gwyllt sydd yn dod drosodd o'r tir cyfagos ac yn gwneud llanast ac yn fygythiol yn erbyn pobl. Roedd y Clerc wedi eu cynghori i gysylltu gyda Adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Gwynedd ond nhw ddim mewn sefyllfa i wneud dim am y sefyllfa. Maent wedi argymell y dylai Sain gysylltu gyda'r RSPCA. Yn anffodus, nid oes gan y Cyngor Cymuned unrhyw bwerau i wneud dim am y sefyllfa.<br><br>b) Arwydd y Stables, Llanwnda<br>Cwyn wedi ei dderbyn gan drigolyn lleol yn nodi siom fod yr arwyddion newydd ar Stables Llanwnda yn uniaith Saesneg. Roedd Aelodau yn cytuno fod hyn yn siomedig ond yn anffodus, nid oes gan y Cyngor Cymuned bwerau i'w gorfodi i newid. Fodd bynnag, cytunwyd y dylai'r Cyngor Cymuned yrru llythyr yn nodi ein bod wedi siomi nad ydynt wedi gwneud arwydd dwy ieithog. |
| 7. | **Is-bwyllgorau**<br>Dim i'w nodi |
| 8. | **Materion Ariannol**<br>a) Adroddiad Ariannol<br><br>**<u>Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 18 Ebrill 2017</u>**<br><br>**<u>1. Cyfrif Cadw</u>**<br>Balans a ddygwyd ymlaen: 12,340.22<br>- Trosglwyddiad icyfrif siec 4,000.00<br>+ Cyngor Gwynedd Ad-daliad llwybrau <u>1,231.62</u><br>**Balans ar derfyn busnes 18 Ebrill 2017 9,571.84**<br><br>**<u>2. Cyfrif Siec</u>** |

| | |
|---|---|
| | Balans a ddygwyd ymlaen: **4,735.51**<br>+ 3 Claddiad 1,030.00<br>+ Trosglwyddiad o cyfrif cadw 4,000.00<br>- 101014 Caryl E Lewis Maw 438.51<br>- 101015 Swyddfa'r Post – PAYE Maw 99.00<br>- 101017 Antur Nantlle 108.00<br>- 101005 Theatr Bara Caws 150.00<br>- 101003 Ysgol Rhosgadfan 200.00<br>- 101018 Swyddfa Archwilio Cymru BDO 326.55<br>- 101016 Wyn Williams 840.50<br>- 101009 Lleu 100.00<br>- 101011 Canolfan Bro Llanwnda 1,000.00<br>- 101010 Clwb Felin Llanwnda 100.00<br>- 101008 Ysgol Rhostryfan 1,000.00<br>- 101012 Neuadd Rhostryfan 500.00<br>- 101004 Cylch Meithrin Llanwnda 300.00<br>**Balans ar derfyn busnes 18 Ebrill 2017: 4,602.95**<br><br>**Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 19 Ebrill 2017:**<br><br>Cyflog Clerc Ebrill 438.51<br>Cyllid y Wlad Ebrill 99.00<br>JD Roberts 69.00<br>**Cyfanswm 606.51**<br><br>b) Trefniadau ddiwedd flwyddyn ariannol<br>Nododd y Clerc y bydd angen i'r Is-Bywllgor Cyllid gyfarfod i fynd drwy'r cyfrifon. Bydd y Pwyllgor Cyllid yn cyfarfod 6.15pm, 17 Mai yn Ysgol Rhosgadfan.<br><br>c) Cyflog Clerc<br>Nodod y Clerc y bydd angen cytuno ar gyfradd cyflog Clerc ar gyfer 2017/18 a rhoddwyd cais i drafod yn y cyfarfod nesaf. Cytunodd Aelodau i hyn. |
| 9. | **Materion Cynllunio**<br>Cais C17/0286/24/LL – Codi Ty Deulawr a lecynau parcio, Tanrallt, Rhostryfan<br>Dim sylw<br><br>Cais C17/0328/24/LL – Estyniad tu blaen, Goleufryn, Rhosgadfan<br>Dim sylw |
| 10. | **Gohebiaeth a chylchgronnau**<br>**a) Canllaw'r Cynghorydd da**<br>Clerc yn ei rannu ac yn annog aelodau i'w ddarllen.<br>**b) Prosiect Uwch Gwyrfai**<br>Diweddariad gan swyddogion o'r Parc Cenedlaethol am gynllun posib sydd yn cynnwys llawer o ddatblygiadau cyffroes. Roedd llawer o ddiddordeb gan Aelodau a gofynnwyd i'r Clerc eu gwadd draw i roi cyflwyniad byr ar y cynllun.<br>**c) Cofnod Grwp Cyswllt Chwarel**<br>Clerc yn cadanhru derbyn copi o'r cofnodion, cadarnhad fod £3k y flwyddyn am fod ar gael i'r gymuned i gychwyn eleni a bydd modd rhoi cais i mewn drwy'r Grwp Cyswllt. Mae tebygrwydd y bydd y swm yn cynyddu fel fydd y busnes yn cynyddu. Clerc i yrru nodyn fel Cyngor Cymuned ein bod yn gwerthfawrogi y cyfle i gael bod yn rhan.<br>**d) Pwyllgor Safonnau**<br>Cais gan Cyngor Gwynedd am enwebiadau am gynrychiolydd o'r cynghorau |

| | |
|---|---|
| | cymuned. |
| 11. | **Materion Cyfarfod Nesaf**<br>GLLW – Sgwar Rhos Isaf – y broblem gyda'r lon yn suddo yn parhau, oes bosib derbyn diweddariad gan Cyngor Gwynedd.<br>MW – Mater i'w godi gyda Cymdeithas y Porwyr – cwyn wedi ei dderbyn, heibio Bryn Gro i fyny, defaid yn mynd o dan y giat achos mae bwlch mawr yn y gwaelod, o ganlyniad mae defaid yn dod yn ol i'r pentref.<br>NE – Cwyn wedi ei dderbyn - Tai Bro Wyled, mae llwybr rhwng rhif 12 a 13 ond mae rhywun yn parcio car yno.  Angen adrodd wrth Cartrefi Cymunedol Gwynedd.<br>EJ- Ar y lon rhwng Llwyn Onn a Dolwar, Rhostryfan, mae tyllau ofnadwy yn y lon.<br><br>**Dyddiad: 17 Mai 2017**<br>**Lleoliad: Ysgol Rhosgadfan** |